



Crynodeb

Comisiynwyd Wessex Archaeology gan RPS Consulting Services i gynnal gwerthusiad archeolegol ac arolwg twll turio geoarchaeolegol ar dir o fewn hen safle Alwminiwm Môn ger Caergybi, Ynys Môn. Gwnaethpwyd y gwaith ar y cyd â'r bwriad i adeiladu is-orsaf drydan 132kV.

Amcan penodol y gwerthusiad ffos oedd archwilio tystiolaeth ar gyfer Ffordd Llundain-Caergybi Thomas Telford o'r 19eg ganrif, gyda'r cwrs gwreiddiol yn mynd drwy'r safle. Amcan penodol yr arolwg twll turio geoarchaeolegol oedd ymchwilio potensial palaeoamgylcheddol ardal o ddyddodion Fflat Llanw a nodwyd yn flaenorol ar y safle. I gyflawni yr amcanion hyn, cloddiwyd dwy ffos werthuso i ragod cwrs y ffordd, a chloddiwyd un twll turio a thri sampl ebill o fewn yr ardal o arwyddocâd palaeoamgylcheddol posibl.

Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o ffordd Llundain-Caergybi Telford o fewn y naill ffos na'r llall. Ni chofnodwyd unrhyw olion eraill o weithgarwch archeolegol, gyda un ffos yn cynnwys fawr ddim ond dyddodion naturiol ac yr llall yn dangos llawer o dystiolaeth o aflonyddwch modern (20fed neu 21ain ganrif).

Mae'r dilyniant gwaddodol a gofnodwyd gan y gwaith geoarchaeolegol yn awgrymu amgylchedd arfordirol di-dor ac amgylchedd ger yr arfordir sydd yn adlewyrchu natur ddeinamig tirweddau o'r fath mewn ymateb i berthynas newidiol tir a môr. Mae gwaelod y dilyniant yn cynnwys traeth graeanog a dyddodion fflat llanw, wedi eu gorchuddio â mawn trwchus (0.75–2.25 m islaw lefel y ddaear), a allai fod wedi ffurfio mewn corstir rhwystr cefn. Ar ben y mawn isaf mae tywod mân wedi ei ddidoli'n dda a all gynrychioli dyddodion fflat llanw pellach ond sydd yn ymddangos yn fwy tebygol o fod o darddiad aeolian (a chwythwyd gan y gwynt), sydd yn cynrychioli ymlediad tua'r tir o system twyni ym mae Penrhos ac sydd wedi ehangu a datchwyddo i raddau helaeth. Nid yw oedran dilyniant y dyddodion yn hysbys, er bod y dyddodion cors arwynebol ar frig y dilyniant yn debygol o fod yn fwy diweddar.

Mae gan y dyddodiad mawn is a gofnodwyd yn nhwll ebill AUG-01.2 (0.75–2.25 m islaw lefel y ddaear) botensial geoarchaeolegol uchel. Mae'r dyddodiad cors mawnaidd uchaf (cors arwynebol) yn debygol o fod yn fwy diweddar mewn dyddiad ac mae ganddo botensial geoarchaeolegol cymedrol. Nid oedd posib cael mynediad diogel i'r lleoliad craidd a gynigiwyd yn wreiddiol gyda rig drilio tra na allai y craiddydd Rwsia dreiddio i'r tywod wedi ei ddidoli'n fân ar ben y mawn. Felly dim ond drwy ddefnyddio ebill dwylo y gellid adennill samplau o'r mawn, ond mae gan y rhain botensial uchel o halogiad ac nid ydynt yn addas ar gyfer asesiad na dyddio gwyddonol. Os effeithir y dyddodion hyn, dylid adfer twll turio geoarchaeolegol pwrpasol drwy'r dyddodion, a chynnal rhaglen sydd yn targedu asesiad palaeoamgylcheddol a dyddio gwyddonol y dyddodion mawn, gan ddadansoddi maint gronynnau y tywodydd mân i benderfynu a yw'r rhain o darddiad aeolian.

Cedwir yr archif ar hyn o bryd yn swyddfeydd Wessex Archaeology yn Sheffield. Bydd yr archif ddogfennol a digidol yn cael ei hadneuo gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) ar ôl cwblhau'r prosiect. Ni chynhyrchodd y gwaith maes archif o ddarganfyddiadau.

Diolchiadau

Hoffai Wessex Archaeology ddiolch i RPS Consulting Services am gomisiynu'r gwerthusiad archeolegol, yn enwedig Nick Cooke. Mae Wessex Archaeology hefyd yn ddiolchgar am gyngor yr Uwch Archeolegydd Cynllunio a fu'n monitro'r prosiect ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, ac i Rock Civil Engineering Ltd am eu cydweithrediad ac eu cymorth ar y safle.